

Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Craffu Pobl
Neuadd y Sir Brynbuga
Dydd Mawrth, 27ain Medi, 2022, 10.00 am**

Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir Sue Riley (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir: Fay Bromfield, Jayne McKenna,
Maureen Powell, Angela Sandles, Maria Stevens,
Jackie Strong, Jan Butler

Swyddogion yn Bresennol

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau
Landlord Masnachol ac Integredig
Estelle Hitchon, Director of Partnerships and
Engagement
Becky Pritchard, Transport Officer
Jason Killens, Chief Executive

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Sir David Jones

1. Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw sylwadau wedi eu derbyn gan y cyhoedd.

3. Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol: Cynnal craffu cyn penderfynu ar y polisi.

Roedd yr Aelod Cabinet Martyn Groucott wedi cyflwyno'r adroddiad ac wedi ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Debra Hill-Howells a Becky Pritchard.

Her:

Mae llefydd gwag weithiau yn cael eu cymryd gan bobl sydd yn dymuno danfon eu plant i ysgolion y tu allan i'r ardal dalgyllch. A oes yna ffi ar gyfer hyn? Sut ydym yn pennu pwy fydd yn cymryd y llefydd gwag sydd yn weddill?

Mae'r polisi yn eglur bod plant yn cael eu cludo i'r ysgol agosaf neu'r ysgol dalgyllch, ac felly, nid oes hawl gan rieni i ddewis pa ysgol y bydd y drafnidiaeth yn cludo disgyblion. Ond oes yna lefydd gwag ar y bws, mae modd i ni rhyddhau'r rhain er mwyn talu am ychydig o gost y drafnidiaeth. Bydd ceisiadau ôl-16 yn cael eu blaenoriaethu gan nad oes yna ofyniad statudol ar gyfer eu cludo a byddem am eu cefnogi i barhau gyda'u haddysg. Os oes yna seddi gwag da ar ôl, mae yna bolisi consesiynol y mae rhieni yn medru gwneud cais ar ei gyfer, a hynny ar y

sail mai'r cyntaf i'r felin gaiff falu; yn y polisi newydd, rydym yn cynnig delio gyda hyn drwy ffafrio'r sawl sydd yn byw bellaf o'r ysgol.

A yw'r trothwy diogelwch yn y mesur teithio ar gyfer dysgwyr yn rhy uchel? A oes modd diwygio'r asesiad cerdded fel bod yna broses apel lle y mae Aelodau lleol yn medru cyflwyno eu dealltwriaeth o'r ardal leol i'r Prif Swyddog?

Nid oes unrhyw newid i'r pellter y byddai disgwyl i ddisgybl gerdded cyn bod yn gymwys ar gyfer cludiant. Mae'r penderfyniad ynglŷn ag a yw'n ddiogel i gerdded yn cael ei wneud gan Swyddog Diogelwch y Ffordd annibynnol ac nid gan aelod o'r tîm trafndiaeth ysgol. Rydym ond wedi ehangu ar yr esboniad (e.e. rydym yn cymryd yn ganiataol bod pob plentyn ysgol gynradd yn cael ei dywys gan oedolyn) – mae'r polisi sylfaenol yn parhau heb ei newid.

O dan y goblygiadau adnoddau, y gost ar gyfer 22/23 yw tua £5.4m. A yw hyn wedi ei brofi eto yn sgil y cynnydd mewn costau byw a thanwydd ayyb, ac os felly, sut?

Rydym yn mynd allan i dendr ar gyfer ein holl gontractau, ac maent yn cael eu dyfarnu yn gwbl gywir a heb ffafriaeth. Rydym hefyd yn gofyn i'n tîm mewnol i gyflwyno tendr o ran cost fel bod modd ni gymharu'r ddarpariaeth fewnol gyda'r ddarpariaeth allanol. Nid ydym yn derbyn unrhyw dendrau ar gyfer rhai contractau, ac felly, nid oes dewis gan ein tîm mewnol ond ymgymryd â'r contract. Mae hyn wedi golygu bod rhaid i ni brynu cerbydau newydd, gan gynyddu cost y ddarpariaeth i'r Awdurdod. Rhaid i ni dalu am unrhyw gynnydd gan ddibynnu ar y darlun cenedlaethol, gan weithio gyda chydweithwyr yn Nhorfaen a Chasnewydd er mwyn sicrhau, pan fyddwn yn gwneud hyn, nad ydym yn creu marchnad a chystadleuaeth rhyngom ni a'r awdurdodau cyfagos. Mae'r Awdurdod yn talu am y rhan fwyaf o'r gost, ac nid yw'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth oni bai eu bod yn hŷn na 16 mlwydd oedd neu'n teithio'n gonsesiynol. Y gost ar gyfer hyn yw £440 y flwyddyn, gyda'r Awdurdod yn cynnig cymhorthdal sylweddol: mae'r gost ar gyfer lle, na sydd yn le ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn £1900 y sedd am bob disgybl. Mae rhieni yn medru talu mewn rhandaliadau dros y flwyddyn newydd. Mae £440 yn debygol o fod dipyn yn rhatach na'r opsiwn arall sydd ar gael, sef gwneud trefniadau teithio eu hunain.

A oes yna gyfle i adolygu'r contractau yma gyda'r gweithredwyr e.e. yn sgil y cynnydd mewn costau tanwydd?

Roeddem wedi cynyddu'r holl gontractau 9.7% ym mis Ebrill er mwyn adlewyrchu'r costau byw, cyfradd a gytunwyd yn genedlaethol. Mae gweithredwr yn medru dychwelyd y contract.

Ar draws y sir, mae ysgolion cynradd ac uwchradd gwahanol yn meddu ar ardaloedd dalgyloch gwahanol. A fydd trafndiaeth dal yn cael ei darparu ar gyfer lleoliadau gwahanol o'r un ardal? Beth yw costau hyn?

Mae hyn yn deillio o newid yn nalgyloch Ysgol Gyfun Caerllion o rai o'r ysgolion cynradd yn ardal Bynrbuga/Llangybi. Gan mai Caerllion oedd yr ysgol agosaf cyn hyn, roedd y daith gyfartalog yn 3 milltir. Ond nawr, maent yn mynd i Ysgol Gyfun Trefynwy ac mae'r daith ar gyfartaledd yn 18 milltir, ac mae yna gynnydd sylweddol mewn costau. Rydym wedi cytuno i gynnal adolygiad cyfyngedig o'r ardaloedd dalgyloch. Mae yna rai trafferthion mewn rhai ardaloedd fel sydd wedi

eu nodi a bydd yr adolygiad yn ystyried hyn. Os yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer teithio, bydd dal hawl statudol gan ddisgyblion i gael trafndiaeth.

I blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol, mae trefniadau weithiau yn chwalu ac efallai eu bod angen symud at deulu arall. A oes unrhyw beth yn y polisi sydd yn ystyried hyn, er mwyn sicrhau parhad yn yr ysgol y maent yn mynychu?

Mae'r hawl i apelio yn rhan annatod o'r polisi ynghyd ag ystyriaeth o unrhyw amgylchiadau arbennig. Gan eu bod yn ymwneud ag achosion unigol, byddai'n anodd ystyried pob un sefyllfa fel rhan o un polisi. Felly, rydym yn pwysleisio'r agen i apelio fel bod modd ystyried amgylchiadau arbennig.

O ran yr A40/42, mae llawer o drigolion yn codi pryderon am groesi'r ffordd er mwyn dal y bws. A yw'r llwybrau diogel yn cael eu hasesu ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd?

Mae'r asesiad o lwybrau yn ystyried oedran y teithiwr gan ei fod yn cymryd yn ganiataol bod disgyblion cynradd yn cael eu tywys. Nid ydym yn ymwybodol o'r mater hwn – ond gallwn ofyn i'r Swyddog Diogelwch y Ffordd ei ystyried ond nid oes modd i ni ddileu'r risg yn gyfan gwbl. Bydd y Swyddog yn ystyried a oes digon o welededd ayyb - nid yw pwynt diogel i groesi'r ffordd yn golygu o reidwydd bod angen pwynt croesi penodol.

Nid oes dim un o'r gorsafoedd bysiau ac eithrio un ar hyd yr A40/42 yn meddu ar gwr isel er mwyn caniatáu cadair olwyn i gael mynediad.

Ar gyfer disgybl penodol ag anghenion penodol, byddem angen gwerthuso'r ddarpariaeth ond mae'r holl drafndiaeth sydd yn cael ei darparu yn hygyrch fodd bynnag.

Mae angen gorffen y groesfan Sebra yng Nghoetre, fel rhan o lwybr cerdded diogel i'r ysgol gynradd.

Mae llwybrau diogel yn gyfrifoldeb MonLife - e-bostiwrch yr Aelod Cabinet a bydd yn cael ei drafod gyda'r tîm.

A yw hysbysu p'un ai bod dysgwr ôl-16 wedi derbyn sedd i deithio i ysgol y tu hwnt i'r sir cyn dechrau'r tymor yn newid i'r polisi?

Ydy - cynigiwyd hyn fel newid gan ein bod yn cydnabod y trafferthion y mae disgyblion yn cael yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg yn seiliedig ar ffydd gan nad ydym yn cynnig y rhain y sir, a hynny ar ôl i ni wrando ar yr adborth i'r ymgynghoriad. Byddant yn cael eu blaenoriaethu o flwyddyn nesaf pan fyddwn yn ystyried ceisiadau ôl-16.

Mae'r Swyddog Diogelwch y Ffordd yn asesu llwybrau yn newid yn y polisi. Byddai'n ddefnyddiol pe bai yna fecanwaith apelio ar gyfer Prif Swyddogion fel bod modd ystyried barn Aelodau, oherwydd mae'r Aelod yn hollol ddi-rym os yw'r wybodaeth sydd gan y Swyddog yn gwrthgyferbynnu'r hyn sydd gan yr Aelod. Rwyf yn awgrymu bod y lwybrau peryglus disgrisiynol yn cael eu hychwanegu at y polisi fel bod Aelod yn medru gofyn i Uwch Swyddog i adolygu'r penderfyniad.

Mae asesiad o'r llwybr yn cael ei gynnal gan Swyddog wedi ei hyfforddi ac mae yn annibynnol o'r tîm trafndiaeth ysgol, gan weithredu o fewn canllawiau clir, fel bod pob un rheol yn cael ei weithredu'n wrthrychol ar gyfer pob cais. Mae hyn yn deg gan nad yw'r asesiad yn cael ei wneud gan y Swyddog sydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. O ran apelio yn erbyn penderfyniad fod llwybr yn ddiogel ar gyfer cerdded arno, mae yna bolisi clir ar hyn o bryd ar gyfer gwrthwynebu hyn. Mae ein Swyddog Trafndiaeth yn gwneud y penderfyniad cychwynnol ynglŷn ag a ddylid derbyn yr argymhelliad bod y llwybr yn ddiogel: pe bai rhieni yn apelio, byddai angen i'r Pennaeth Trafndiaeth ystyried hyn. Byddai barn yr Aelod Lleol hefyd yn cael ei ystyried fel sydd wedi digwydd yn barod eleni. Mae'r broses yma, gyda dau gam, felly yn deg ac yn wrthrychol ac nid oes angen ei ddiwygio.

Byddai dal yn ddefnyddiol pe bai'r polisi yn caniatáu'r Aelod Lleol i ofyn i'r Prif Swyddog i adolygu penderfyniad disgresiynol.

Ni fyddem am ymyrryd gyda pholisi fel bod modd effeithio ar ddadansoddiad cychwynnol unrhyw Swyddog Diogelwch y Ffordd. Mae'n gywir fod hyn yn annibynnol. Efallai bod modd i ni ychwanegu ambell air sydd yn esbonio fod 'hawl gan rieni', a hynny 'gydag Aelod Lleol' – bydd yr Aelod Cabinet yn ystyried hyn yn syth ar ôl y cyfarfod heddiw.

A oes unrhyw ffyrdd, drwy ein adran gyfreithiol, i gryfhau'r contractau ar gyfer gweithredwyr? Os yw gweithredwr yn penderfynu rhoi'r gorau iddi pan fydd yn dod yn 'rhy ddrud', yna nid yw hyn o reidrwydd yn gontract?

Gallwn godi hyn gyda Matt Phillips, y Prif Swyddog Cyfreithiol.

Ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg, nid oes yna ddewis ganddynt i dderbyn addysg uwchradd yn y sir, sydd yn golygu bod llawer yn gorfod teithio dipyn o bellter a bydd hyn yn digwydd pan fydd plant sydd yn mynychu'r ysgol uwchradd newydd yn Nhrefynwy angen mynd i ysgol uwchradd Gymraeg – rhaid i ni edrych ar hynny yn y dyfodol.

Mae'r polisi sydd yn ymwneud gyda darpariaeth ar gyfer trafndiaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei gryfhau eleni: "byddwn yn darparu trafndiaeth i'r ysgol cyfrwng Cymraeg neu'r ysgol ffydd agosaf." Ond rydym yn derbyn y pwynt fod mwy nag un cyfnod sylfaen ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac nid ydym yn cynnig darpariaeth uwchradd yn Sir Fynwy. Mae yna ddadl ar gyfer pwyllgor gwahanol, ac fel awdurdod, rydym wedi ymrwymo i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.

Pe bai plentyn yn symud dros nos i deulu maeth, sut ydym yn mynd i'w cefnogi fel rhieni corfforaethol er mwyn osgoi aflonyddu eu haddysg? A yw'r broses apelio yn ddigon da yn y fath achos?

Os yw person ifanc yn cael ei adleoli, byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr ym maes gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod modd darparu trafndiaeth, fel arfer yn ddisgresiynol, gan na fyddent yn cwrdd â'r gofynion statudol. Byddem yn sicr yn ceisio sicrhau na fyddai'r plentyn o dan anfantais yn sgil cael ei symud.

Mae rhai teuluoedd yn siomedig eu bod yn talu £400 am drafndiaeth gan fod y dalgylch wedi newid tra bod eu plant yn yr ysgol gynradd – a oes modd eu hystyried? Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi gan y Cyngor. A oes modd penderfynu ar hyn fesul achos?

Rydym yn ymwybodol o'r teuluoedd yma yn sgil ymyrraeth y Cynghorydd a byddwn yn ystyried y mater. Mae'r newid yn y dalgylch yma (ar gyfer ysgol Caerllion) wedi ei wneud gan Gyngor Dinas Casnewydd heb ymgynghori gyda neb arall - gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy. Yn anffodus, nid ydym yn medru ystyried dymuniad disgybl i aros gyda'i ffrindiau ond rydym eisoes wedi addo cynnal adolygiad cyfyngedig o'r meysydd dalgylch yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae'r polisi angen ei adolygu'n flynyddol ac wedi bod yn rhan o ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r adborth wedi ei ystyried wrth i ni ddiwygio'r polisi. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi derbyn cais i gymeradwyr polisi ar gyfer 2023-2024. Rydym wedi medru trafod hyn mewn manylder bore yma gyda chyfraniadau defnyddiol gan yr Aelod Cabinet a'r Swyddogion. A yw'r Pwyllgor yn teimlo'n fodlon gyda'r atebion i'w cwestiynau ac a yw'r Pwyllgor yn hapus i gymeradwyo'r polisi, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau sydd wedi eu hawgrymu a bod yr Aelod Cabinet wedi cytuno eu derbyn? Bydd unrhyw gwestiynau sydd angen eu hateb yn cael eu rhannu gan yr Aelod ar ôl y cyfarfod. Os yw'r Pwyllgor yn fodlon, byddwn yn symud ymlaen gyda'r agenda gan ddiolch i'r Cynghorydd Groucutt, Deborah Hill-Howells a Becky Pritchard am fynychu heddiw.

Roedd y Cynghorydd Brown yn dymuno nodi fod yr Aelod Cabinet yn cytuno i newid y geiriau sydd yn ymwneud gyda chynnwys Aelod yn y broses apelio.

4. Cyflwyniad - Gorsafoedd ambiwlans Trefynwy a Chas-gwent: Trafod y newidiadau i orsafoedd ambiwlans yn Nhrefynwy ac ar wal Parc rhwng Cas-gwent a Chil-y-coed.

Roedd Jason Killens ac Estelle Hitchon wedi mynychu o Wasanaeth Ambiwllans Cymru ac wedi rhoi'r cyflwyniad ac ateb cwestiynau gan yr Aelodau.

Her:

Yr pryder allweddol yw tynnu'r cerbydau ymateb brys o Drefynwy a Chas-gwent, ac felly, mae'n mynd i effeithio ar yr amser i ymateb i achosion fel trawiad ar y galon neu ddamwain difrifol ar y fferm yn yr ardaloedd hynny.

Rydym yn cydnabod y pryderon yma. Rydym yn ceisio defnyddio'r adnoddau sydd gennym yn y ffordd fwyaf effeithlon, er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer ein cleifion. Mae'n wir fod y data a ddefnyddir yn deillio o 2019, a bod llawer wedi newid ers hyn; ym Mai, roeddem wedi gwneud modelu gyda chwmni gwahanol er mwyn profi a oedd yr hyn yr ydym yn bwriadu gwneud yn mynd i arwain at welliannau mewn amser oedd ymateb ac mae'r ateb yn bositif. Tra y bydd yna lai o fudd o wneud hyn, yn sgil yr aflonyddwch a cholledion yn yr adrannau damweiniau brys, byddwn yn gweld cynnydd yn y perfformiad coch ac ambr. Ni fydd y newidiadau roster yn cywiro'r problemau yr ydym yn wynebu o ran amseroldeb ein hymateb ond byddant yn helpu.

Mae'r modelau yn cynnwys sicrwydd ond beth os yw'r amseroedd ymateb yn methu?

Rydym yn monitro perfformiad bob awr. Os yw'r perfformiad yn dirywio, byddwn yn ystyried yn gyntaf pam fod hyn wedi digwydd e.e. a oes mwy o weithgarwch, mwy o gapasiti wedi ei gollu

mewn unedau damweiniau brys ayyb neu fel ararall, byddem yn ymateb drwy newid yr adnoddau sydd ar gael, ychwanegu mwy o bobl, newid oriau neu'n gweithredu mesurau eraill. Dylid cofio ein bod yn gosod mwy o ambiwlansys ac adnoddau gofal brys ychwanegol mewn ymateb i'r newid yn rhestr waith yr ambiwlansys.

Gyda llai o ambiwlansys yn yr ardaloedd yma, a fydd yr ambiwlansys awyr yn cael eu defnyddio'n fwy aml?

Nid ydym yn lleihau'r nifer o ambiwlansys ond yn cyflwyno mwy . Bydd mwy ar gael ar lefel genedlaethol a lleol - mwy na 30 yn genedlaethol, gyda mwy na 40 o oriau ychwanegol ar draws y fflyd yn Sir Fynwy bob wythnos. Nid ydym yn gyfrifol am Ambiwlan Awyr Cymru ond rydym yn ymwybodol bod eu modelu hwythau ar y newidiadau arfaethedig i'w gwaith yn dangos na fydd unrhyw ddirywiad ar gyfer cleifion sydd angen Ambiwlan Awyr neu'u hymateb i ddamweiniau ffordd - nid oes yna gysylltiad rhwng yr hyn y maent hwy yn gwneud a'r hyn yr ydym yn gwneud, ac eithrio'r ffaith bod pawb yn ceisio sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Gyda gorsaf sy'n seiliedig ar hyb, y broblem yw'r cyfnod 8 munud – nid yw ambiwlans yn medru cyrraedd manau yn Sir Fynwy o orsaf ganolog yn y cyfnod hwnnw. Efallai bod meddalwedd y model yn arwain at amser ymateb gwell ar gyfartaledd ond ni fydd hyn yn berthnasol i'r ardaloedd mwy pellennig a fydd yn derbyn amser ymateb gwaeth?

Nid ydym yn cau gorsafoedd. Rydym yn buddsoddi ac yn bwriadu cynnal presenoldeb yn Nhrefynwy. Nid oes unrhyw gynlluniau i gau gorsafoedd yn Nhrefynwy neu Gas-gwent o ganlyniad i'r newid yn y rhestr waith.

Mae'r amseroedd coch cyfartalog ar gyfer BIPAB ond mae hynny'n berthnasol i'r ardaloedd trefol - byddai'n ddefnyddiol i weld yr amseroedd coch ar gyfer Sir Fynwy. A fydd yna ambiwlans ymateb brys llawn yn Nhrefynwy, yn disodli'r cerbyd ymateb brys? Gyda gwasanaethau brys, a yw'n well i gael gormod o gapasiti yn hytrach na dim digon o gapasiti?

Rydym yn cytuno o ran gormod o gapasiti. Mae ein fflyd yn cael ei ddefnyddio'n ormodol ar hyn o bryd, sydd yn golygu bod rhaid i gleifion aros am gyfnodau hir. Mae llawer o'n gwaith yn ffocysu ar geisio lleihau hyn. Rydym wedi ein comisiynu i ddarparu gwasanaeth ar lefel bwrdd iechyd, a dyna pam ein bod wedi defnyddio'r data ar y lefel yna. Nid oes yr adnoddau gennym i gyrraedd y targedau yma ym mhob lleoliad bob dydd o'r wythnos. Rydym yn gweithio gyda chyfartaleddau yn sgil hyn. Nid yw pob ambiwlans yn gweithio bob awr o'r wythnos – bydd rhai yn cael eu staffio, 12, 16, 18 awr y diwrnod. Mewn rhai achosion, mae capasiti sylweddol gennym, a byddwn wedyn yn defnyddio'r cerbyd am gyfnod hirach. Mewn rhai achosion, mae yna gerbydau newydd yn mynd i gael eu cyflwyno. Rydym yn medru darparu'r data penodol ar gyfer Trefynwy.

Sut ydych yn gweithio gyda'r gwasanaethau ambiwlans yn Lloegr?

Ar lefel weithredol bob dydd gyda Lloegr, rydym yn derbyn galwadau ar ran ein gilydd ac yn eu trosglwyddo yn ôl ac ymlaen, gyda ninnau yn ymateb weithiau i alwadau mewn rhan arall e.e. Swydd Henffordd a byddant hwy yn ymateb i rai o'n galwadau ni, yn enwedig galwadau Coch.

O ran “cau darnau o ofal yn ofalus”, pa effaith y mae trin pobl lle y mae rhywbeth yn digwydd yn mynd i’w gael ar y tîm gofal iechyd cynradd?

Fel enghraifft, mae dyn hŷn gyda COPD a’n fyr ei anadl ac yn methu mynd i ofal cynradd am ryw reswm a’n ffonio 999 - ar hyn o bryd, byddem yn ymateb ac yn debygol o gludo’r claf i’r uned damweiniau brys. Mae’n debygol fod angen antibiotig arno. Nawr, rydym yn medru danfon ymarferydd parafeddyg ato a fydd yn asesu’r claf, ysgrifennu presgripsiwn ar gyfer antibiotig, yn trefnu bod fferyllfa yn danfon hyn ato ac yn rhoi gwybod i’r Meddyg Teulu. Mae’r claf felly yn medru aros gartref, heb orfod mynd yn yr ambiwlans ac aros y tu allan i’r uned damweiniau brys, am gyfnod hir ac wynebu risg pellach ar ôl mynd i mewn - a thra’n aros tu fas, nid yw’r ambiwlans ar gael i neb arall yn y gymuned. Felly, os oes modd i ni gau’r fath achos yn ddiogel a phriodol yn y gymuned, bydd yn elwa’r claf a’r system iechyd yn gyffredinol. Mae’n rhaid bod hyn yn rhan o sut ydym yn gwella’r gwasanaeth a phrofiadau ein cleifion.

Mae angen sicrhau bod triniaeth yn y cartref yn fwy holistaidd – mae darn arall o’r GIG angen ategu yr hyn yr ydych yn ceisio gwneud.

Rydym yn cytuno’n llwyr, ac felly’n parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y GIG er mwyn creu cyfleoedd i’n clinigwyr i atgyfeirio at rannau eraill o’r system. Nid ydym yn medru parhau i gludo’r un nifer o gleifion i’r adrannau brys – mae yna ffyrdd gwell o wneud pethau. Ond rydymangen cymorth gan y byrddau iechyd er mwyn gwireddu hyn.

Pan fydd rhywun yn ffonio 999, a oes modd i chi gadarnhau bod hyn yn mynd i’r ganolfan alw, sydd wedyn yn gwneud penderfyniad ynglŷn ag a ddylid danfon ambiwlans ffordd neu awyr - sut mae’r penderfyniad yn cael ei wneud?

Wedi deialu 999, bydd y person yn siarad gyda gweithiwr BT a fydd yn gofyn pa wasanaeth brys sydd ei angen. Os mai ambiwlans sydd angen, yna mae’r alwad yn mynd i ystafell reoli’r gogledd neu’r de. Bydd cyfres o gwestiynau yn cael eu gofyn a’r ambiwlans yn cael ei ddanfôn. Mae cwestiynau pellach yn cael eu gofyn am y claf er mwyn cadarnhau a oes angen help pellach, gan gynnwys yr ambiwlans awyr, yn seiliedig ar y ‘dispatch criteria’. Felly, y math o glaf a’r broblem yw’r elfen gritigol, nid y lleoliad.

Mae’r cynlluniau ar gyfer gorsaf Trefynwy yn dda. Ble fydd yr ambiwlansys lleol ychwanegol yn cael eu lleoli? Bydd trigolion yn pryderi am yr amseroedd ateb coch: yn sgil yr amser i deithio i ardaloedd gwledig, nid wyf yn methu deall pam eich bod yn israddio’r gorsafoedd yn Nhrefynwy a Chas-gwent.

Rydym yn ychwanegu mwy o gapasiti yn sgil y newid hwn. Ond mae’r pwynt am yr natur wledig yn un da: nid oes ots faint o gerbydau sydd ar gael, nid yw’n bosib cyrraedd pob un lle o fewn 8 munud, yn sgil y ddaearyddiaeth a’r rhwydwaith ffordd. Er mwyn gwella’r cyfle i gyrraedd mwy o alwadau ynghynt, mae’r cynllun ymatebwr cyntaf cymunedol gennym: 6-700 o unigolion ar draws Cymru sydd yn ymateb i alwadau yn eu cymunedau er mwyn darparu ymyrraeth sydd achub bywyd tra’n aros am yr ambiwlans. Rydym yn buddsoddi yn y grŵp hwn, gan ychwanegu capasiti, hyfforddiant a’n hysbysebu am recriwtiaid newydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i gefnogi cymunedau gwledig ac mae’r cynllun yn ffordd dda o wneud hyn.

Caeodd gorsaf ambiwlans Cas-gwent ychydig o amser yn ôl ond mae yna fan gorffwys ar gyfer cerbydau argyfwng brys. Sut y mae hynny yn medru delio gyda phoblogaeth fawr, gyfun sydd yng Nghil-y-coed a Chas-gwent gyda chymaint o bellter o Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Athrofaol y Faenor?

Mae'n fae Ymateb Cymunedol – nid yw'n orsaf lawn ond mae yna adnoddau sydd yn gweithio oddi yno. Nid oes yna fwriad i newid neu leihau'r nifer o leolaidau yr ydym yn gweithio ynddynt o ganlyniad i'r newidiadau i'r rhestr waith. Rydym yn hapus i ysgrifennu ymateb llawn i chi am sut y mae bae Ymateb Cas-gwent yn gweithio.

Crynodeb y Cadeirydd:

Rydym wedi trafod y cynigion mewn manylder ac wedi esbonio ein pryderon ar ran trigolion o ran y capasiti a'r amser i fynychu digwyddiadau critigol mewn sir wledig. Rydym yn deall fod yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal modelu manwl er mwyn rhagweld y patrymau galw a'n cynnig tystiolaeth ar gyfer y newidiadau y maent yn cynnig. Tra bod y Pwyllgor yn cydnabod fod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y newidiadau hyn er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o ran adnoddau i wasanaethu cymunedau, rwy'n sicr bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod pryderon gennym ac rydym yn gofalu am fuddiannau ein trigolion. Mae'r Pwyllgor yn falch o gael y cysur nad oes yna gynlluniau ar waith i gau'r gorsafodded yn Sir Fynwy a bod yr Ymddiriedolaeth yn ei Gynllun Busnes yn bwriadu buddsoddi yn ei bresenoldeb ar lawr gwlad. At hyn, mae'r Pwyllgor yn falch clywed bod yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflwyno mwy o ambiwlansys yn genedlaethol a dros fwy o oriau ychwanegol yn Sir Fynwy fel rhan o'r cynigion yma a bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fonitro'r perfformiad a'r amseroedd aros. Tra nad ydym yn gwbl gefnogol o gynigion yr Ymddiriedolaeth, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i'w trafod yma gyda'r Ymddiriedolaeth er mwyn deall yn well y penderfyniadau sydd i'w cymryd a rhannu pryderon ein cymunedau. Hoffem ddiolch i Jason am y cyfle i siarad gyda chi a deall pa mor brysur ydych, ac felly, rydym yn gwerthfawrogi eich bod wedi mynychu heddiw. Hoffem ddiolch i'r holl Aelodau, gan gynnwys y sawl na sydd ar y Pwyllgor, am eu mewnbwn ar y mater pwysig hwn.

5. Blaenraglen Waith Pwyllgor Craffu Pobl

Noder yr amser dechrau cynt ar gyfer y cyfarfod cyfun ar 11eg Hydref.

6. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Gorffennaf 2022.

Cadarnhawyd y cofnodion a'u llofnodi fel cofnod cywrain.

8. Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel 15fed Tachwedd 2022.